

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|-------------------------------------|--|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| Fideogynhadledd drwy Zoom | Gareth Williams |
| Dyddiad: Dydd Llun, 8 Chwefror 2021 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.30 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDCC@senedd.cymru |

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00–09.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant
09.30
- 2 Offerynnau nad ydynt yn codi unrhyw faterion i gyflwyno
adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
09.30–09.35 (Tudalennau 1 – 3)
CLA(5)–05–21 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiad clir
Offerynnau'r penderfyniad negyddol
 - 2.1 SL(5)730 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) 2021

Offerynnau'r penderfyniad cadarnhaol
 - 2.2 SL(5)733 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau
Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021



3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

09.35–09.40

Offerynnau'r penderfyniad negyddol

3.1 SL(5)737 – Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

(Tudalennau 4 – 13)

CLA(5)–05–21 – Papur 2 – Adroddiad

CLA(5)–05–21 – Papur 3 – Rheoliadau

CLA(5)–05–21 – Papur 4 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–05–21 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 28 Ionawr 2021

Offerynnau'r penderfyniad cadarnhaol

3.2 SL(5)731 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

(Tudalennau 14 – 21)

CLA(5)–05–21 – Papur 6 – Adroddiad

CLA(5)–05–21 – Papur 7 – Rheoliadau

CLA(5)–05–21 – Papur 8 – Memorandwm Esboniadol

3.3 SL(5)732 – Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

(Tudalennau 22 – 45)

CLA(5)–05–21 – Papur 9 – Adroddiad

CLA(5)–05–21 – Papur 10 – Rheoliadau

CLA(5)–05–21 – Papur 11 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r penderfyniad cadarnhaol 'gwnaed'

3.4 SL(5)738 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021

(Tudalennau 46 – 64)

CLA(5)–05–21 – Papur 12 – Adroddiad

CLA(5)–05–21 – Papur 13 – Rheoliadau

CLA(5)–05–21 – Papur 14 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–05–21 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Ionawr 2021

CLA(5)–05–21 – Papur 16 – Datganiad ysgrifenedig, 28 Ionawr 2021

3.5 SL(5)739 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

(Tudalennau 65 – 82)

CLA(5)–05–21 – Papur 17 – Adroddiad

CLA(5)–05–21 – Papur 18 – Rheoliadau

CLA(5)–05–21 – Papur 19 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–05–21 – Papur 20 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 29 Ionawr 2021

CLA(5)–05–21 – Papur 21 – Datganiad ysgrifenedig, 29 Ionawr 2021

4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

09.40–09.45

4.1 SL(5)721 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2021

(Tudalennau 83 – 86)

CLA(5)–05–21 – Papur 22 – Adroddiad

CLA(5)–05–21 – Papur 23 – Ymateb Llywodraeth Cymru

4.2 SL(5)724 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael at Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

(Tudalennau 87 – 91)

CLA(5)–05–21 – Papur 24 – Adroddiad

CLA(5)–05–21 – Papur 25 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i cyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

09.45–09.50

(Tudalen 92)

CLA(5)–05–21 – Papur 26 – Is-ddeddfwriaeth sydd ag adroddiadau clir

5.1 SL(5)734 – Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

09.50–09.55

6.1 WS–30C(5)216 – Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygiadau Amrywiol sy'n ymwneud â Chyfansoddiad, Gwybodaeth a Labelu Bwyd a Gwin) 2021

(Tudalennau 93 – 97)

CLA(5)–05–21 – Papur 27 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–05–21 – Papur 28 – Sylwebaeth

7 Papurau i'w nodi

09.55–10.00

7.1 Llythyr gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Craffu ar reoliadau Llywodraeth Cymru a chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – Rheol Sefydlog 21.3C(iv)

(Tudalennau 98 – 99)

CLA(5)–05–21 – Papur 29 – Llythyr gan y Parch Ruth Coombs, Pennaeth

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, 3 Chwefror 2021

7.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

(Tudalennau 100 – 104)

CLA(5)–05–21 – Papur 30 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 3 Chwefror 2021

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.00

9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd – trafod yr adroddiad drafft

(Tudalennau 105 – 119)

CLA(5)–05–21 – Papur 31 – Adroddiad drafft

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cam–drin Domestig – trafod y materion allweddol

(Tudalennau 120 – 136)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol](#)

CLA(5)–05–21 – Papur 32 – Cyngor cyfreithiol

CLA(5)–05–21 – Papur 33 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 16 Rhagfyr 2020

CLA(5)–05–21 – Papur 34 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 15 Hydref 2020

CLA(5)–05–21 – Papur 35 – Llythyr at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 13 Hydref 2020

CLA(5)–05–21 – Papur 36 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 6 Hydref 2020

CLA(5)–05–21 – Papur 37 – Llythyr at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 30 Medi 2020

11 Gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru – trafod y materion allweddol

(Tudalennau 137 – 147)

CLA(5)–05–21 – Papur 38 – Papur ar faterion allweddol

12 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig – papur briffio

(Tudalennau 148 – 155)

CLA(5)–05–21 – Papur 39 – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

**13 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd
(Ymadael) 2018 – y wybodaeth ddiweddaraf**

(Tudalen 156)

**CLA(5)-05-21 – Papur 40 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 3
Chwefror 2021**

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 22 Chwefror 2021

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 08 Chwefror 2021

SL(5)730 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017");
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018");
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Maent yn gymwys i flynyddoedd academiaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2021 neu ar ôl hynny, ac yn diwygio'r rheoliadau cymorth ariannol i fyfyrrwyr presennol uchod i:

- gynyddu faint o gymorth a roddir i fyfyrrwyr israddedig ac ôl-raddedig;
- cydgrynhoi rhai grantiau i fyfyrrwyr anabl mewn un lwfans newydd; a
- darparu ar gyfer newidiadau i'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin a gymhwysir i'r fframwaith codio Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch.

O ran y pwynt olaf, mae Rheoliadau 2018 yn darparu, ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny, i fyfyrwr rhan-amser fod yn gymwys i gael cymorth er iddo ennill gradd gyntaf gan sefydliad yn y DU os yw'n astudio un o'r pynciau a restrir yn y rheoliadau. Gwneir darpariaeth debyg yn Rheoliadau 2017 ar gyfer cyrsiau a ddechreuodd cyn 1 Awst 2018. Diffinnir y pynciau hyn gan ddefnyddio'r Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch a'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin sy'n rhoi meysydd pwnc mewn grwpiau o fewn y dosbarthiad hwnnw. Mae'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd ac mae wedi'i diweddar'u'n ddiweddar. Mae angen diwygio Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 felly.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

Fe'u gwnaed ar: 21 Ionawr 2021

Fe'u gosodwyd ar: 26 Ionawr 2021

Yn dod i rym ar: 26 Chwefror 2021



SL(5)733 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

Mae rhan 2 o'r Rheoliadau yn ymdrin â pha faterion pellach sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig y mae'n ofynnol eu cynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad; y cyfnod amser y mae'r adroddiad yn ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth; y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi'r adroddiad a ffurf yr adroddiad.

Mae rhan 3 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymrwmo i drefniant partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdodau lleol mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 26 Ionawr 2021

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2021



Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 08 Chwefror 2021

SL(5)734 – Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gweithdrefn: Drafft Negyddol

Testun

Rhiant-Ddeddf: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 26 Ionawr 2021

Yn dod i rym ar:



Eitem 3.1

SL(5)737 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

O dan Reoliadau 2020, mae'n ofynnol cynnal is-etholiadau gohiriedig ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned, a oedd i fod i ddigwydd rhwng 16 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021, rhwng 1 Chwefror 2021 a 16 Ebrill 2021.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gohirio'r is-etholiadau hyn ymhellach fel ei bod bellach yn ofynnol i gynnal is-etholiadau gohiriedig ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned, a oedd i fod i ddigwydd rhwng 16 Mawrth 2020 a 28 Chwefror 2021, rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r



esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Ionawr 2021.

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch gohirio is-etholiadau awdurdodau lleol yn flaenorol o dan Reoliadau 2020 a'r esboniad a ganlyn:

... yn ddiweddar, fel y gwyddoch, mae pandemig y Coronafeirws wedi gweld ymchwydd arall a chyfyngiadau lefel 4 yn cael eu rhoi ar waith. Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd, ystyrir bod angen gohirio'r is-etholiadau hyn ymhellach o'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 tan 6 Mai 2021. Gan fod yr etholiadau a ohiriwyd i fod i gael eu cynnal yn wreiddiol o 1 Chwefror, mae angen cyflwyno'r set hon o reoliadau ar frys ac felly eu cyflwyno i rym cyn gynted â phosibl. Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 yn darparu bod y cyfnod gohirio yn dod i ben ar 31 Ionawr 2021. Mae peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 29 Ionawr 2021. Oherwydd yr amgylchiadau, credir felly ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Hysbyswyd Swyddogion Canlyniadau o'r bwriad i wneud y Rheoliadau i'w cynorthwyo yn eu paratoadau.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd olaf yn unig.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 2 Chwefror 2021



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 88 (Cy. 25)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**CYNYRCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Coronafeirws) (Gohirio
Etholiadau) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gohirio ymhellach is-etholiadau llywodraeth leol penodol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Roedd yr is-etholiadau gohiriedig hyn i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2021 a 16 Ebrill 2021, ond byddant yn digwydd yn awr yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 88 (Cy. 25)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**CYNYRCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Coronafeirws) (Gohirio
Etholiadau) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2021

Gwnaed 27 Ionawr 2021

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 28 Ionawr 2021

Yn dod i rym 29 Ionawr 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 67 ac 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ionawr 2021.

**Diwygio Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020**

2.—(1) Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(1) 2020 p. 7.

(2) O.S. 2020/461 (Cy. 105).

(2) Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o “y cyfnod perthnasol”, yn lle “31 Ionawr 2021” rhodder “28 Chwefror 2021”.

(3) Yn rheoliad 3(1), yn lle “1 Chwefror 2021 ac sy’n dod i ben ar 16 Ebrill 2021” rhodder “1 Mawrth 2021 ac sy’n dod i ben ar 6 Mai 2021”.

(4) Yn rheoliad 4(1), yn lle “1 Chwefror 2021 ac sy’n dod i ben ar 16 Ebrill 2021” rhodder “1 Mawrth 2021 ac sy’n dod i ben ar 6 Mai 2021”.

(5) Yn rheoliad 5(1)(a), yn lle “31 Ionawr 2021” rhodder “28 Chwefror 2021”.

**Diwygio Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru)
(Rhif 2) 2020**

3.—(1) Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) yn y diffiniad o “pleidlais ohiriedig”, yn lle “1 Chwefror 2021 ac yn dod i ben ar 16 Ebrill 2021” rhodder “1 Mawrth 2021 ac yn dod i ben ar 6 Mai 2021”, a

(b) yn y diffiniad o “y cyfnod perthnasol”, yn lle “31 Ionawr 2021” rhodder “28 Chwefror 2021”.

(3) Yn rheoliad 9(1), yn lle “31 Ionawr 2021” rhodder “28 Chwefror 2021”.

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2021

(1) O.S. 2020/1399 (Cy. 310).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
28 Ionawr 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1. O dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020, mae'n ofynnol i is-etholiadau a ohiriwyd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned a oedd i fod i gael eu cynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2021 gael eu cynnal rhwng 1 Chwefror 2021 ac 16 Ebrill 2021.
- 1.2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gohirio'r is-etholiadau hynny ymhellach fel ei bod yn ofynnol i'r is-etholiadau a ohiriwyd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned a oedd i fod i gael eu cynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 28 Chwefror 2021 gael eu cynnal rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Llywydd wedi'i hysbysu y daw'r Rheoliadau i rym lai na 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad gosod.
- 2.2. Daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Ionawr 2021. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau ddigon o amser i baratoi ar gyfer yr is-etholiadau cyntaf a ohiriwyd a allai gael eu cynnal o fis Mawrth ymlaen. Pe bai'r rheol 21 o ddiwrnodau yn cael ei dilyn ar gyfer y Rheoliadau hyn, ni fyddent mewn grym erbyn y byddai angen i Swyddog Canlyniadau osod yr hysbysiad etholiad er mwyn cael yr is-etholiadau ym mis Mawrth. At hynny, daw'r cyfnod perthnasol a nodir yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 i ben ar 31 Ionawr 2021. Mae caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 1 Chwefror 2021 yn golygu na fydd bwlch yn y cyfnod perthnasol. O ystyried yr amgylchiadau hyn, credir bod lleihau'r cyfnod yn angenrheidiol yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Mae'r pwerau i wneud y Rheoliadau hyn yn adrannau 67 a 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020.
- 3.2. Mewn perthynas ag etholiadau, mae adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud, trwy reoliadau, unrhyw ddarpariaethau canlyniadol, atodol, cysylltiedig, trosiannol neu arbed mewn cysylltiad ag adran 66 neu reoliadau a wneir o dan adran 67 o'r Ddeddf. Mae adran 67 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ohirio'r bleidlais ar gyfer sedd sy'n digwydd dod yn wag ar gyfer swydd cynghorydd

mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1. Mae'r Rheoliadau yn gohirio is-etholiadau llywodraeth leol penodol ymhellach o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. O dan Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020, mae'n ofynnol i is-etholiadau a ohiriwyd ar gyfer cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned a oedd i fod i gael eu cynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2021 gael eu cynnal rhwng 1 Chwefror 2021 ac 16 Ebrill 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn gohirio is-etholiadau ymhellach fel y byddant yn cael eu cynnal yn awr yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.
- 4.2. Mae Rheoliad 2 yn diwygio dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 ac mae Rheoliad 3 yn diwygio dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

5. Ymgynghori

- 5.1. Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Hysbyswyd Swyddogion Canlyniadau o'r bwriad i wneud y Rheoliadau i'w cynorthwyo yn eu paratodau.

6. Asesiad effaith rheoleiddiol

- 6.1. Nid ystyrir bod y rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ariannol sylweddol, ac felly ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol.



Ein cyf/Our ref: MA.JJ.0260.21

Elin Jones AS
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Ionawr 2021

Annwyl Llywydd,

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Rheoliadau Llywodraeth Leol (*Coronafeirws*) (*Gohiro Etholiadau*) (*Diwygiadau Amrywiol*) (*Cymru*) 2021 yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Cyflwynwyd Deddf y Coronafeirws 2020 yn Senedd San Steffan ar 19 Mawrth 2020 ac roedd yn cynnwys sawl darpariaeth amrywiol ynghylch etholiadau. Gohiriodd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym ar 5 Mai 2020 unrhyw is-etholiadau a oedd bod cael eu cynnal yn y dyfodol agos, gan bennu dyddiad newydd ar gyfer cynnal yr is-etholiadau hyn erbyn 16 Ebrill 2021 ac nid cyn 1 Chwefror 2021. Fodd bynnag, yn ddiweddar, fel y gwyddoch, mae pandemig y Coronafeirws wedi gweld ymchwydd arall a chyfyngiadau lefel 4 yn cael eu rhoi ar waith. Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd, ystyrir bod angen gohirio'r is-etholiadau hyn ymhellach o'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 tan 6 Mai 2021.

. Gan fod yr etholiadau a ohiriwyd i fod i gael eu cynnal yn wreiddiol o 1 Chwefror, mae angen cyflwyno'r set hon o reoliadau ar frys ac felly eu cyflwyno i rym cyn gynted â phosibl. Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 yn darparu bod y cyfnod gohirio yn dod i ben ar 31 Ionawr 2021. Mae peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 29 Ionawr 2021. Oherwydd yr amgylchiadau, credir felly ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoni AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Eitem 3.2

SL(5)731 - Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy mewn rhai is-etholiadau llywodraeth leol penodol.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn darparu sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys, neu newid eu dirprwy enwebedig, yn yr is-etholiadau hyn. Mae'r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i ddilyn deddfwriaeth berthnasol, canllawiau berthnasol neu gyngor meddygol berthnasol mewn perthynas â'r phandemig COVID-19.

Mae'r darpariaethau'n berthnasol i is-etholiadau llywodraeth leol sy'n digwydd ar 4 Tachwedd 2021, neu cyn hynny.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Ceisiwyd barn y Comisiwn Etholiadol, ac ystyriwyd eu sylwadau y dylai'r darpariaethau hefyd ymestyn i etholwyr â dirprwy presennol, wrth ddrafftio'r rheoliadau.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2 Chwefror 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 15

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl
(Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws)
2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy mewn is-etholiadau llywodraeth leol penodol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn darparu sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys, neu newid eu dirprwy enwebedig, yn yr is-etholiadau hyn. Mae'r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i ddilyn deddfwriaeth berthnasol, canllawiau perthnasol neu gyngor meddygol perthnasol mewn perthynas â'r pandemig COVID-19.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**CYNYRCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl
(Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws)
2021**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 4(2)(c) a 6(7) ac (8) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000(1) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(3), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

-
- (1) 2000 p. 2; gwnaed diwygiadau perthnasol i Atodlen 4 gan adran 14(2)(a) ac (8) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22). Am y diffiniad o "prescribed" gweler adran 202(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2) i'w darllen ynghyd â pharagraff 1(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) ac Atodlen 1 iddo.
- (3) 1983 p. 2; mae paragraff 1(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn darparu y bydd Atodlen 4 yn cael effaith fel pe bai wedi ei chynnwys yn Rhan 1 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

Diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddechrau rheoliad 56(2)(2) mewnosoder “Subject to paragraph (3B),”.

(3) Yn rheoliad 56(3B)—

- (a) yn lle “paragraph 4(2)” rhodder “paragraphs 4(2), 6(7) or 6(8)”;
- (b) dileer “, or an application under paragraph 6(8) of that Schedule made by virtue of that application,”.

(4) Ar ddiwedd rheoliad 56(3C), ar ôl “the Local Government (Coronavirus) (Postponement of Elections) (Wales) Regulations 2020” mewnosoder “or will take place between 25 February 2021 and 4 November 2021”.

Enw

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
Dyddiad

(1) O.S. 2001/341.

(2) Gwnaed diwygiadau perthnasol i reoliad 56 gan O.S. 2006/752, O.S. 2006/2910, O.S. 2013/3198 ac O.S. 2020/1399 (Cy. 310).

Memorandwm Esboniadol ar Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
26 Ionawr 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy mewn is-etholiadau llywodraeth leol penodol a gynhelir rhwng y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac 4 Tachwedd 2021.
- 1.2. Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn darparu sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys yn yr is-etholiadau hyn. Mae'r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i ddilyn deddfwriaeth berthnasol neu ganllawiau neu gyngor meddygol perthnasol mewn perthynas â'r pandemig COVID-19 yn ogystal â chaniatáu i'r rhai sydd â phleidlais ddirprwy bresennol newid eu dirprwy enwebu os bydd yn rhaid i'r unigolyn enwebedig ynysu.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Daw'r Rheoliadau i rym ar 25 Chwefror 2021, a byddant yn gymwys i bob is-etholiad a gynhelir ar ôl y dyddiad hwn.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan baragraff 4(2)ac 6(7) ac 8 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1. Mesurau dros dro yw'r Rheoliadau er mwyn darparu pleidlais drwy ddirprwy brys pan fo unigolyn yn dilyn cyngor y llywodraeth neu gyngor meddygol i hunanynysu mewn perthynas â COVID-19.
- 4.2. Mae cyfyngiad amser ar y darpariaethau a byddant yn peidio â chael effaith ar ôl 4 Tachwedd 2021.
- 4.3. Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith etholiadol yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle y gall fod angen i etholwyr wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy oherwydd bod rhaid iddynt hunanynysu yn sgil COVID-19. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer pleidleisiau a gynhelir yn y dyfodol agos, pan fo feirws COVID-19 yn debygol o ddal i fod ar led yn ein cymunedau.

Pleidlais drwy ddirprwy i'r rhai sy'n gwarchod eu hunain

- 4.4. Mae paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pleidlais absennol mewn etholiad penodol. Mae paragraff 4(2)(a) yn darparu'n benodol y bydd Swyddog Canlyniadau yn cymeradwyo cais i bleidleisio drwy ddirprwy pan fydd wedi'i fodloni y bydd amgylchiadau'r ceisydd ar ddyddiad y bleidlais yn golygu, neu'n debygol o olygu, na ellir disgwyl yn rhesymol i'r ceisydd bleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio berthnasol. Byddai amgylchiadau unigolion sy'n hunanyysu yn berthnasol i'r categori hwn.
- 4.5. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 56 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn estyn y categorïau o bobl a gaiff wneud cais am ddirprwy brys i gynnwys unigolion na all bleidleisio yn bersonol gan eu bod yn dilyn deddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru neu gyngor meddygol mewn perthynas â'r coronafeirws a hunanyysu.
- 4.6. Dros dro yw'r newidiadau ac ni fyddant ond yn gymwys i etholiadau a gynhelir hyd 4 Tachwedd 2021.
- 4.7. Rhaid i gais am ddirprwy brys ar sail feddygol gynnwys ardystiad gan weithiwr proffesiynol perthnasol. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod gofyniad ar gyfer ardystiad ar unigolion na all bleidleisio yn bersonol gan eu bod yn dilyn cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor meddygol i hunanyysu. Mae hyn yn adlewyrchu'r anawsterau y gall rhywun sy'n hunanyysu neu'n gwarchod ei hun eu hwynebu wrth geisio cael ardystiad gan berson annibynnol addas.

5. Ymgynghori

6. 5.1. Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Ceisiwyd barn y Comisiwn Etholiadol ac ystyriwyd eu sylwadau y dylai'r darpariaethau hefyd ymestyn i etholwyr â dirprwy presennol wrth ddrafftio'r rheoliadau. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1. Nid ystyrir y bydd y rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ariannol sylweddol, felly ni chynhaliwyd aseiad effaith rheoleiddiol.

Eitem 3.3

SL(5)732 – Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

Cefndir a Diben

O dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae dyletswydd ar Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau nyrsio mewn perthynas â'r lleoliadau clinigol a bennir yn is-adran 25B(3) – sef wardiau cleifion mewnol meddygol aciwt sy'n oedolion a wardiau cleifion mewnol llawfeddygol aciwt sy'n oedolion – i gyfrifo lefelau staff nyrsio, ac i gymryd camau i gynnal y lefelau hynny, ac i roi gwybod i gleifion am y lefelau hynny o staff nyrsio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y sefyllfaoedd y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddynt i gynnwys wardiau cleifion mewnol pediatrig.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Dim ond yn Saesneg y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau gael eu gosod yn ddwyieithog lle y bo'n rhesymol ymarferol.

Codwyd y pwynt hwn yn ddiweddar mewn perthynas ag offerynnau statudol eraill. Yn ôl yr esboniad a gafwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru, er bod cyfran gynyddol o'r dogfennau hyn yn cael eu gosod yn ddwyieithog, maent yn gorfod blaenoriaethu eu hadnoddau cyfieithu cyfyngedig yn llym iawn ar hyn o bryd, gyda deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddus sy'n ymwneud â Covid-19 a Brexit yn brif flaenoriaeth.



Esboniwyd hefyd eu bod wedi ystyried y Safon berthnasol o ran Safonau'r Gymraeg, a'u bod wedi ystyried y canllawiau a ddarperir gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
2 Chwefror 2021**



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 23

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 203(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio
(Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

O dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau nyrsio mewn perthynas â'r lleoliadau clinigol hynny a bennir yn is-adran 25B(3), sef wardiau meddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion a wardiau llawfeddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion, o dan ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio a chymryd camau i'w cynnal, ac i hysbysu cleifion am y lefelau staff nyrsio hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y sefyllfaoedd y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddynt i gynnwys wardiau cleifion mewnol pediatrig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 203(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio
(Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym

1 Hydref 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 25B(3)(c) a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 203(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(2) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021.

(1) 2006 p. 42; gweler adran 206(1) am y diffiniad o "regulations". Mewnosodwyd adran 25B yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") gan adran 1(1) o Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (dccc 5) ("Deddf 2016"). Diwygiwyd adran 203(6) o Ddeddf 2006 gan adran 1(2) o Ddeddf 2016 i ddarparu bod rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 25B(3)(c) o Ddeddf 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol. Mewnosodwyd y diffiniad o "nurse staffing level", fel y'i diffinnir yn adran 25B(1)(a) o Ddeddf 2006, yn y tabl o ymadroddion wedi eu diffinio yn adran 207 o'r un Ddeddf gan adran 1(3) o Ddeddf 2016.

(2) Mae'r cyfeiriad yn adran 203(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2021.

Sefyllfaedd penodedig ar gyfer gwasanaethau nyrsio

2. Mae wardiau cleifion mewnol pediatriig wedi eu pennu yn sefyllfa y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddi.

Enw

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Explanatory Memorandum to *The Nurse Staffing Levels (Extension of Situations) (Wales) Regulations 2021*".

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Office of the Chief Nursing Officer and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of *The Nurse Staffing Levels (Extension of Situations) (Wales) Regulations 2021*". I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Vaughan Gething
Minister for Health and Social Services
26 January 2021

PART I

1. Description

These regulations extend the section 25B duty (and its associated duties under sections 25C-E) under the Nurse Staffing Levels (Wales) Act 2016¹ to the additional situation of paediatric inpatient wards.

2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

None.

3. Legislative background

The Nurse Staffing Levels (Wales) Act 2016 ('the 2016 Act') received Royal Assent in March 2016 and inserted new Sections 25A to 25E into the National Health Service (Wales) Act 2006 ('the 2006 Act'). There has been a phased approach to its initial implementation in two parts.

The first duty under section 25A sets out the 'overarching responsibility' for local health boards and NHS trusts to ensure there are sufficient nurses to care for patients sensitively and applies to any setting where nursing care is provided including commissioned services. This duty came into force in April 2017.

The second duty under section 25B (and its associated duties within sections 25C-E) requires local health boards and NHS trusts to use a prescribed methodology to calculate and maintain the nurse staffing level for adult acute medical inpatient wards and adult acute surgical inpatient wards. This duty came into force in April 2018.

At the time the 2016 Act was passed, the decision was taken to apply the second duty to adult acute medical and surgical inpatient wards only as they were the only settings with an evidence base sufficiently developed to underpin the "*evidence-based workforce planning tool*", which the 2016 Act provides is necessary for calculating the appropriate nurse staffing level.

However, section 25B(3)(c) of the 2016 Act includes a regulation making power to extend the duty to calculate and maintain nurse staffing levels to other care situations.

The All Wales Nurse Staffing Programme ('the Programme') is currently driving the development of further evidence-based workforce planning tools, with four work-streams focussing on: adult mental health inpatient wards; health visitors; district nursing; and paediatric inpatient wards. The Welsh Levels of Care tool for paediatrics inpatients has been in development and testing since January 2018 and is now fit for use in ward settings. Therefore the section 25B duty to

calculate and maintain the nurse staffing level is being extended to paediatric inpatient wards in Wales.

These Regulations are being made under the draft affirmative resolution procedure.

4. Purpose and intended effect of the legislation

The purpose of these Regulations is to extend the duties in sections 25B - E of the Nurse Staffing Levels (Wales) Act 2016 (as inserted into the 2006 Act) to the additional situation of paediatric inpatient wards.

Namely, these duties are:

- 25B is the duty to calculate nurse staffing levels and to take all reasonable steps to maintain those levels. It also includes the duty to inform patients of those calculated levels.
- 25C is the duty to use a prescribed method of calculation for nurse staffing levels. This triangulated method uses: nurses' professional judgement; patient acuity through the evidence-based workforce planning tool; and nurse-sensitive quality indicator data.
- 25E is the duty to report every three years on the extent to which nurse staffing levels have been maintained on the wards to which these duties apply, and the impact that health board or trust considers that not maintaining those levels has had on care.

Section 25D places a duty on the Welsh Ministers to issue guidance about the duties under sections 25B and C, and how local health boards and NHS trusts are to comply with those requirements. The original statutory guidance document² published in October 2017 has been revised to include reference to paediatric inpatient wards and undergone a 13 week public consultation process.

The primary aim of these duties is ultimately to improve patient safety and quality of care in the clinical settings to which they apply. The available evidence (expanded in the RIA below) clearly indicates that having the appropriate number of registered nurses reduces morbidity, improves patient outcomes and saves bed-days. Having a standardised, evidence-based means of calculating what that appropriate levels of nursing staff is for each ward – accompanied by a statutory obligation to maintain those levels – will make it possible to articulate more clearly and consistently the staffing needs within paediatric inpatient wards and ensure the funding is made available by health boards and NHS trusts to meet those staffing needs.

The 2016 Act also ensures that the NHS more widely recognises the professional judgement of nurses in identifying how sick their patients are and their holistic care needs, and supports nurses from ward to board to have the necessary and sometimes difficult conversations about the resource requirements of their patients based on those clinical needs.

These Regulations will extend the scope of those aims to include paediatric inpatient wards and the young people treated on them.

5. Consultation

There is no statutory obligation to consult on regulations made under section 25B(3)(c) of the 2016 Act (as inserted into the 2006 Act). Therefore, there was no formal consultation on the Regulations themselves. However, the proposal to extend the duty to paediatric inpatient wards, and the consequent amendments to the statutory guidance, have been the subject of stakeholder engagement. The amended guidance was also subject to a 13 week consultation as explained below.

Section 25D stipulates that the Welsh Ministers must issue guidance about the duties under sections 25B and 25C (which supplement section 25B on the method of calculating nurse staffing levels). It also states that before issuing the guidance, the Welsh Ministers must conduct a formal public consultation process.

The original (current) statutory guidance was subject to a 12 week consultation in 2017. Amendments were required to the guidance to reflect the decision to extend the section 25B duty to paediatric inpatient wards. Before issuing the revised statutory guidance, another public consultation was required on the amendments made.

A 13-week consultation ran from 16 September 2020 to 16 December 2020 seeking views on the amendments that had been made to the guidance. The consultation was drawn to the attention of a wide audience of key stakeholders including Executive Nurse Directors, Chief Executives and Heads of Paediatric Nursing of each health board and NHS trust, the chairs of the All Wales Nurse Staffing Group and its key sub groups, the All Wales Senior Nurse Forum, the All Wales Ward Managers Forum, the Royal College of Nursing, the Nursing and Midwifery Council, youth patient groups, Community Health Council and the Childrens' Commissioner for Wales.

The consultation specifically sought views on the amended ward definitions, the list of ward exclusions, and the minor linguistic amendments that had been made throughout the document.

There was broad agreement to the revisions made to the statutory guidance document with a majority of respondents agreeing that the definitions were clear and easy to understand and that exclusions list was appropriate. A summary report of the consultation responses was published on 15 January 2021³. A small number of further minor revisions will be made to the statutory guidance based on respondents' observations, and the document will be published in spring 2021.

PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

6. Options

Three options have been identified and are summarised here and referred to at various points throughout the document in terms of comparing the costs, risks and benefits of each.

Option 1: Status quo – Do not extend the section 25B duty to paediatric inpatient wards.

Mae Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhestru'r gwledydd hynny a'r thiriogaethau hynny sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn rhinwedd rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 12E yn darparu, pan fo person wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth benodedig a restrir yn Atodlen 3A, ei bod yn ofynnol i'r person hwnnw ac aelodau ei aelwyd ynysu. At hynny, nid yw'r categorïau o bersonau esempt fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys, a chaiff person adael ynysiad o dan amgylchiadau mwy cyfyngedig. Mae rheoliad 12F yn gosod cyfyngiadau ar awyrennau a llestrau sy'n cyrraedd yn uniongyrchol o wlad a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 2 yn ychwanegu'r Emiraethau Arabaidd Unedig, Gweriniaeth Burundi a Gweriniaeth Rwanda at y rhestr o wledydd a thiriogaethau yn Atodlen 3A. Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas ag ychwanegu'r gwledydd hynny at y rhestr o wledydd a thiriogaethau yn Atodlen 3A. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Gweriniaeth Burundi neu Weriniaeth Rwanda o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn 4.00 a.m. ar 29 Ionawr 2021 ac ar unrhyw un ar yr un aelwyd â phobl o'r fath. Mae'r rhain yn wledydd lle y ceir tystiolaeth o ledaeniad cymunedol amrywiolyn newydd o'r coronafeirws.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 95 (Cy. 26)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021**

Gwnaed am 1.57 p.m. ar 28 Ionawr 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 4.45 p.m. ar 28 Ionawr 2021*

Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 29 Ionawr 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 29 Ionawr 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1);
- (b) ystyr y “Rheoliadau Cyfyngiadau” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(2).

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12) ac O.S. 2021/66 (Cy. 15).

(2) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13) ac O.S. 2021/66 (Cy. 15).

RHAN 2

Diwygiadau i Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Ychwanegu gwledydd at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn Atodlen 3A

2. Yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lle priodol mewnosoder—

“Yr Emiraethau Arabaidd Unedig”

“Gweriniaeth Burundi”

“Gweriniaeth Rwanda”.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3. Nid yw rheoliad 12F o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw hediad neu daith a gychwynnodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

RHAN 3

Diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfyngiadau

Diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfyngiadau

4.—(1) Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11AA—

(a) yn y pennawd, yn lle “15 Ionawr” rhodder “29 Ionawr”;

(b) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “15 Ionawr” rhodder “29 Ionawr”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “15 Ionawr” rhodder “29 Ionawr”;

(c) yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r gwledydd a ganlyn yn wledydd rhestredig—

(a) Gweriniaeth Burundi;

(b) Gweriniaeth Rwanda;

(c) Yr Emiraethau Arabaidd Unedig.”;

(d) hepgorer paragraff (5).

RHAN 4

Diwygiadau Amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

5.—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3(1) o Atodlen 1A—

- (a) yn lle “6A(4)(a)” rhodder “6A(4)(c)”;
- (b) hepgorer paragraff (a).

(3) Ym mharagraff 7(2) o Atodlen 2, hepgorer “a pharagraff 8”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 1.57 p.m. ar 28 Ionawr 2021

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

28 Ionawr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cyfyngiadau")

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dod i rym

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo gan y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, gan fod brys, bod angen gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir cymryd camau iechyd cyhoeddus er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad i iechyd pobl oherwydd y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion fel y'u nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd cyhoeddus i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym am at 4.00 a.m. ar 29 Ionawr 2021.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn dilyn cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch ynghylch ymddangosiad straen newydd o'r coronafeirws a nodwyd gyntaf yn Ne Affrica, penderfynodd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020 osod mesurau ychwanegol ar deithwyr a oedd yn dychwelyd i Gymru o'r wlad honno ac aelodau o'u haelwydydd. Cymhwyswyd y gofynion ynysu cryfach hyn hefyd i deithwyr a oedd wedi dychwelyd i Gymru o Dde Affrica yn ddiweddar. Wedi hynny, estynnodd Llywodraeth Cymru y mesurau ychwanegol hynny i nifer o wledydd eraill yn Neheudir Affrica yn ogystal â Tanzania a Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo yn dilyn cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn newydd hwn.

Mae cyngor pellach sydd wedi'i dderbyn gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos y dylai'r cyfyngiadau presennol sydd ar waith mewn ymateb i ledaeniad yr amrywiolyn newydd barhau i fod ar waith ac, fel dull rhagofalus, y dylid estyn y mesurau hyn i Weriniaeth Burundi a Gweriniaeth Rwanda oherwydd nad yw'r Gydganolfan Ddiogelwch yn hyderus iawn y bydd yr amrywiolyn yn cael ei ddarganfod os bydd yn lledaenu i'r gweledydd hyn gan mai cyfyngedig yw eu gallu i brofi a dilyniannodi.

Mae'r Gydganolfan Bioddiogelwch hefyd wedi nodi nifer fach o achosion o VOC202012/02 wedi'u cadarnhau yn y DU, sy'n cynnwys unigolion yr adroddwyd iddynt deithio o'r Emiraethau Arabaidd Unedig neu unigolion sydd wedi dod i gyswllt â theithwyr o'r Emiradau Arabaidd Unedig. Felly, gan ddilyn dull rhagofalus, dylid estyn y mesurau ychwanegol hyn i'r Emiraethau Arabaidd Unedig

Felly, mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o Weriniaeth Burundi, Gweriniaeth Rwanda a'r Emiraethau Arabaidd Unedig hunanynysu yn unol â'r drefn gyfyngiadau gryfach, a bydd y gofyniad ynysu hwnnw hefyd yn berthnasol i holl aelodau aelwyd unrhyw un sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hynny o 4.00 a.m. ddydd Gwener 29 Ionawr 2021.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn datgymhwyso'r holl esemptiadau sectorol yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn achos teithwyr o wledydd sy'n destun mesurau ychwanegol. Felly, ni fydd modd i neb sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn y 10 niwrnod blaenorol gael ei esemptio rhag y gofynion i ddarparu gwybodaeth amdano'i hun fel teithiwr ac i hunanynysu. Bydd rhestr fyrrach nag sy'n arferol o resymau dros adael, dros dro, y man ynysu yn gymwys hefyd, fel rhan o'r ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd.

Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol oherwydd yr adroddiadau sy'n cyrraedd o'r gwledydd hynny am y risgiau iechyd sy'n dod i'r amlwg yn sgil canfod straen newydd o'r coronafeirws sydd â lefelau trosglwyddo uchel.

Er mwyn ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa sy'n datblygu, gwnaed diwygiadau hefyd i Rheoliadau Rhif 5, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i berson a gyrhaeddodd Cymru cyn 4.00 a.m. ar 29 Ionawr ar ôl bod yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod blaenorol hunanynysu am 10 o ddiwrnodau o'r dyddiad yr oedd yn y gwledydd hynny ddiwethaf. Bydd y gofyniad hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw aelodau o aelwyd y person hwnnw.

I helpu i sicrhau bod y gofynion newydd hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn cysylltu ar frys â holl drigolion Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn y 10 diwrnod diwethaf er mwyn esbonio'r gofynion ynysu newydd.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Ein cyf/Our ref MA/VG/0394/21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

28 Ionawr 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00am ar 29 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 3 Mawrth 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Chwefror 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

DYDDIAD 28 Ionawr 2021

GAN Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 10 diwrnod a darparu gwybodaeth amdanynt eu hunain fel teithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ar gyfer ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Y newid mwyaf diweddar oedd dileu'r holl wledydd a thiriogaethau o'r rhestr hon ar 18 Ionawr 2021.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod gofynion ynysu cryfach wedi'u cyflwyno mewn perthynas â phobl sy'n cyrraedd Cymru o wledydd lle mae pryderon iechyd y cyhoedd wedi'u nodi mewn perthynas â throsglwyddo straeniau sy'n amrywiolynnau ar y coronafeirws.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gydganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r gofynion ynysu cryfach sy'n berthnasol i Dde Affrica, Namibia, Zimbabwe, Botswana, Eswatini, Zambia, Malawi, Lesotho, Mozambique, Angola, Mauritius, Seychelles, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo a Gweriniaeth Unedig Tanzania a'u hadolygu ymhen tair wythnos arall. Yn ogystal, rwyf wedi penderfynu y dylid bod yn rhagofalus ac y bydd Gweriniaeth Burundi, Gweriniaeth Rwanda a'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd sy'n destun gofynion ynysu cryfach.

Bydd yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yng Ngweriniaeth Burundi, Gweriniaeth Rwanda a'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn ystod y 10 diwrnod blaenorol hunanynysu am 10 diwrnod, a dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y byddant yn cael gadael y man ynysu. Bydd yr un gofynion ynysu hefyd yn berthnasol i bob aelod o'u haelwyd. Bydd y gofynion ynysu cryfach hyn yn berthnasol hefyd i bobl sydd eisoes yng Nghymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod diwethaf, ac i aelodau eu haelwydydd.

Mae eithriadau newydd hefyd wedi'u cyflwyno i'r gwaharddiad ar awyrennau a llongau sy'n teithio'n uniongyrchol o wlad neu diriogaeth lle mae gofynion ynysu cryfach rhag glanio yng Nghymru. Felly caniateir iddynt gyrraedd Cymru dan yr amgylchiadau canlynol:

- (1) awyren sy'n glanio er mwyn cael tanwydd neu ar gyfer gwaith cynnal a chadw os nad oes unrhyw deithwyr yn dod oddi arni nac yn mynd arni,
- (2) awyren sy'n ambiwlans awyr ac yn glanio er mwyn cludo rhywun i gael triniaeth feddygol,
- (3) llongau y mae'n ofynnol iddynt angori yn sgil cyfarwyddyd diogelwch o ganlyniad i ddamwain (o dan Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995).

Bydd y rheoliadau angenrheidiol yn cael eu gwneud heddiw a bydd y mesurau ychwanegol sy'n berthnasol i Weriniaeth Burundi, Gweriniaeth Rwanda a'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn dod i rym am 04:00 ddydd Gwener 29 Ionawr 2021.

SL(5)739 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau") er mwyn -

- caniatáu i berson sy'n byw mewn ardal Lefel Rhybudd 4 (sy'n cynnwys Cymru gyfan ar hyn o bryd) ymadael â'r man lle y mae'n byw i wneud ymarfer corff gydag 1 person arall (mae hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu i berson ymadael â'i gartref i wneud ymarfer corff gydag aelod o aelwyd neu aelwyd estynedig y person neu ofalwr y person)
- darparu y caiff golchfeydd ceir awtomatig barhau i fod ar agor mewn ardal Lefel Rhybudd 4;
- ym mhob Lefel Rhybudd, caniatáu i aelwyd sydd wedi peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig ffurfio aelwyd estynedig newydd, ar yr amod bod o leiaf 10 niwrnod wedi mynd heibio ers i unrhyw aelod o'r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o unrhyw aelwyd arall yn yr aelwyd estynedig flaenorol;
- gwneud newidiadau canlyniadol a mân newidiadau eraill i sicrhau cysondeb â'r darpariaethau newydd. Mae hyn yn cynnwys cywiro pwynt drafftio bach yn y prif Reoliadau a nodwyd gan y Pwyllgor hwn yn yr adroddiad ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 30 Ionawr 2021.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â hawliau unigol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n darparu:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny."



2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
2 Chwefror 2021**



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 103 (Cy. 28)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)
2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y Rheoliadau Cyfyngiadau") er mwyn—

- (a) caniatáu i berson sy'n byw mewn ardal Lefel Rhybudd 4 (sy'n cynnwys Cymru gyfan ar hyn o bryd) ymadael â'r man lle y mae'n byw i wneud ymarfer corff gydag 1 person arall (mae hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu i berson ymadael â'i gartref i wneud ymarfer corff gydag aelod o

aelwyd neu aelwyd estynedig y person neu ofalwr y person);

- (b) darparu y caiff golchfeydd ceir awtomatig barhau i fod ar agor mewn ardal Lefel Rhybudd 4;
- (c) ym mhob Lefel Rhybudd, caniatáu i aelwyd sydd wedi peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig ffurfio aelwyd estynedig newydd, ar yr amod bod o leiaf 10 niwrnod wedi mynd heibio ers i unrhyw aelod o'r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o unrhyw aelwyd arall yn yr aelwyd estynedig flaenorol;
- (d) gwneud newidiadau canlyniadol a mân newidiadau eraill i sicrhau cysondeb â'r darpariaethau newydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 103 (Cy. 28)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)
2021**

Gwnaed am 2.19 p.m. ar 29 Ionawr 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 5.30 p.m. ar 29 Ionawr 2021*

Yn dod i rym 30 Ionawr 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Ionawr 2021.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 16(4)(a), hepgorer “and by Part II of the Fire Precautions (Workplace) Regulations 1997”.

(3) Ym mharagraff 3 o Atodlen 1—

- (a) yn is-baragraff (4), ar ôl “1 aelwyd estynedig” mewnosoder “ar unrhyw un adeg”;
- (b) yn is-baragraff (6), yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae'n digwydd;
- (c) yn is-baragraff (7)—
 - (i) yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae'n digwydd;
 - (ii) ar ôl “unrhyw aelwyd arall” mewnosoder “oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o'r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag unrhyw aelod o aelwyd arall gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig â'r aelwyd honno”.

(4) Ym mharagraff 3 o Atodlen 2—

- (a) yn is-baragraff (4), ar ôl “1 aelwyd estynedig” mewnosoder “ar unrhyw un adeg”;

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15) ac O.S. 2021/95 (Cy. 26).

(b) yn lle is-baragraff (5) rhodder—

“(5) Pan fo aelwyd wedi cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig ag aelwydydd eraill o dan baragraff 3 o Atodlen 1 (“yr aelwyd estynedig flaenorol”), dim ond â’r aelwydydd eraill hynny y caiff wneud cytundeb o dan y paragraff hwn, oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o’r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o’r aelwydydd hynny gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai’n rhan o’r aelwyd estynedig flaenorol.”;

(c) yn is-baragraff (7), yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae’n digwydd;

(d) yn is-baragraff (8)—

(i) yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae’n digwydd;

(ii) ar ôl “unrhyw aelwyd arall” mewnosoder “oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o’r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag unrhyw aelod o aelwyd arall gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai’n rhan o aelwyd estynedig â’r aelwyd honno”.

(5) Ym mharagraff 3 o Atodlen 3—

(a) yn is-baragraff (4), ar ôl “1 aelwyd estynedig” mewnosoder “ar unrhyw un adeg”;

(b) yn lle is-baragraff (5) rhodder—

“(5) Pan fo aelwyd wedi cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig ag aelwydydd eraill o dan baragraff 3 o Atodlen 1 (“yr aelwyd estynedig flaenorol”), dim ond â’r aelwydydd eraill hynny y caiff wneud cytundeb o dan y paragraff hwn, oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o’r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o’r aelwydydd hynny gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai’n rhan o’r aelwyd estynedig flaenorol.”;

(c) yn is-baragraff (7), yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae’n digwydd;

(d) yn is-baragraff (8)—

(i) yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae’n digwydd;

(ii) ar ôl “unrhyw aelwyd arall” mewnosoder “oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o’r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn

cynulliad gydag unrhyw aelod o aelwyd arall gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig â'r aelwyd honno”.

(6) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 1(4)(f)—

- (i) ym mharagraff (ii), hepgorer “neu” yn yr ail le y mae'n digwydd;
- (ii) ym mharagraff (iii), yn lle “;” rhodder “, neu”;
- (iii) ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

“(iv) gydag 1 person arall nad yw'n aelod o aelwyd neu aelwyd estynedig y person nac yn ofalwr y person, ac unrhyw blant o dan 11 oed sy'n aelodau o aelwyd y naill berson neu'r llall;”;

(b) ym mharagraff 2(4), ar y diwedd mewnosoder—

“(i) gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored, ac eithrio mewn annedd breifat—

- (i) gydag aelodau o aelwyd estynedig y person, neu
- (ii) gydag 1 person arall ac unrhyw blant o dan 11 oed sy'n aelodau o aelwyd y naill berson neu'r llall, ynghyd ag unrhyw ofalwr i berson sy'n cymryd rhan sy'n bresennol.”;

(c) ym mharagraff 3—

- (i) yn is-baragraff (3), ar ôl “1 aelwyd estynedig” mewnosoder “ar unrhyw un adeg”;
- (ii) yn is-baragraff (4), yn y geiriau ar ôl paragraff (b)(ii)—
 - (aa) o flaen “dim ond” mewnosoder “(“yr aelwyd estynedig flaenorol”),”;
 - (bb) ar ôl “y paragraff hwn” mewnosoder “oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o'r aelwyd un oedolyn gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o'r aelwydydd hynny gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig flaenorol”;
- (iii) yn is-baragraff (5), yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae'n digwydd;

(iv) yn is-baragraff (6)—

- (aa) yn y testun Saesneg, yn lle “being in” rhodder “part of” yn y ddau le y mae’n digwydd;
- (bb) ar ôl “unrhyw aelwyd arall” mewnosoder “oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o’r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag unrhyw aelod o aelwyd arall gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai’n rhan o aelwyd estynedig â’r aelwyd honno”;

(d) ar ôl paragraff 62 mewnosoder—

“**62A.** Golchfeydd ceir awtomatig.”

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 2.19 p.m. ar 29 Ionawr 2021

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

29 Ionawr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i drafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr yn amlinellu cyfyngiadau a gofynion a fydd yn berthnasol i bedair gwahanol Lefel Rhybudd a chaiff y Lefelau Rhybudd eu hamlinellu yn y fersiwn fwyaf diweddar o'r [Cynllun Rheoli Coronafeirws](#). Mae Cymru wedi bod o dan Lefel Rhybudd 4 ers dechrau'r dydd ar 20 Rhagfyr 2020.

Adolygwyd y prif Reoliadau ar 28 Ionawr 2021, yn unol â rheoliad 2(b) o'r Rheoliadau hynny, a chytunodd Gweinidogion Cymru y dylai'r lefel bresennol o gyfyngiadau (Lefel Rhybudd 4) barhau. Fodd bynnag, gwneir y newidiadau canlynol i'r prif Reoliadau:

- a. caniatáu i aelwyd sydd wedi peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig ffurfio aelwyd estynedig newydd, ar yr amod bod o leiaf 10 niwrnod wedi mynd heibio ers i unrhyw aelod o'r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o'r aelwyd estynedig flaenorol;
- b. caniatáu i berson ymadael â'r man lle y mae'n byw i wneud ymarfer corff gydag un person arall o unrhyw aelwyd, ynghyd ag unrhyw blant o dan 11 oed o'r naill aelwyd neu'r llall (nid yw hyn ond yn effeithio ar Lefel Rhybudd 4).

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a thechnegol i'r prif Reoliadau.

Aelwydydd estynedig

Ar bob Lefel Rhybudd, mae'r prif Reoliadau yn caniatáu i aelwydydd estynedig gael eu ffurfio, yn amodol ar gyfyngiadau a gofynion penodol a nodir yn yr Atodlen berthnasol i'r Rheoliadau. Ar Lefel Rhybudd 4, mae'r Rheoliadau yn caniatáu i "aelwydydd un oedolyn" ffurfio aelwyd estynedig (a elwir yn gyffredinol yn "swigen gefnogaeth") gydag un aelwyd arall. Fodd bynnag, pe bai unrhyw oedolyn sy'n aelod o'r aelwyd estynedig yn dymuno peidio â bod yn rhan o aelwyd estynedig mwyach, y

rheolau ar bob Lefel Rhybudd oedd y byddai'r aelwyd estynedig honno yn dod i ben ac na ellid ffurfio aelwyd estynedig arall yn y dyfodol¹.

Cydnabyddir y gall cydberthnasau ac amgylchiadau newid dros amser, ac mae'r Rheoliadau nawr yn cael eu diwygio i ddarparu y caiff aelwyd estynedig newydd gael ei ffurfio, pan ddaw aelwyd estynedig i ben, ar yr amod bod o leiaf 10 niwrnod wedi mynd heibio ers i unrhyw aelod o'r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o'r aelwyd estynedig flaenorol. Er hyn, anogir pobl i beidio â newid swigod cefnogaeth oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol.

Ymadael â'r man lle y mae person yn byw er mwyn gwneud ymarfer corff (ar Lefel Rhybudd 4)

Ar hyn o bryd, caiff person sy'n byw mewn ardal Lefel Rhybudd 4 (sef Cymru gyfan ar hyn o bryd) ymadael â'r man lle y mae'n byw er mwyn gwneud ymarfer corff, os yw'n gwneud yr ymarfer corff hwnnw (a) ar ei ben ei hun; (b) gydag aelod arall o'i aelwyd; neu (c) gyda'i ofalwr. Bydd y Rheoliadau hyn nawr yn caniatáu i berson hefyd wneud ymarfer corff gydag un person arall (y tu allan i'w aelwyd).

Gwneir y newid hwn i fod o gymorth i bobl sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig ac i hybu lles pobl yn fwy cyffredinol drwy wneud mwy o ymarfer corff.

Golchfeydd ceir awtomatig

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y caiff golchfeydd ceir awtomatig barhau i fod ar agor mewn ardal Lefel Rhybudd 4.

Diwygiadau canlyniadol a thechnegol

Yng ngoleuni'r diwygiadau uchod, mae angen nifer o fân ddiwygiadau canlyniadol hefyd i'r prif Reoliadau. Yn ogystal, manteisir ar y cyfle i gywiro mân bwynt drafftio yn y prif Reoliadau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

¹ Er bod hawl wedi bod i aelwydydd estynedig neu swigod cefnogaeth gael eu hailffurfio gydag aelodau gwahanol bob tro y disodlwyd y prif reoliadau, ers dydd Gŵyl San Steffan, dim ond swigen gefnogaeth unigryw y caiff person fod yn rhan ohoni.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

29 Ionawr 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 2) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 4 Mawrth 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Chwefror 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 80
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|----------------|--|
| TEITL | Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 |
| DYDDIAD | 29 Ionawr 2021 |
| GAN | Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn darparu ar gyfer system o lefelau rhybudd yng Nghymru, fel y nodir yng *Nghynllun Rheoli Coronafeirws* diweddaraf Llywodraeth Cymru. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol inni adolygu'r cyfyngiadau bob tair wythnos.

Cwblhawyd yr adolygiad diweddaraf ar 28 Ionawr a daeth i'r casgliad y dylai Cymru gyfan aros ar Lefel Rhybudd 4. Golyga hyn fod rhaid i bawb aros gartref a gweithio gartref lle bynnag y bo modd. Rhaid i bob lleoliad manwerthu nad yw'n hanfodol, pob lleoliad lletygarwch, safleoedd trwyddedig a chyfleusterau hamdden aros ar gau.

Mae achosion coronafeirws yn gostwng ym mhob rhan o Gymru ond maen nhw'n parhau i fod yn rhy uchel i ystyried llacio'r cyfyngiadau. Mae nifer y bobl sy'n profi'n bositif yn uchel ac mae'r pwysau dwys ar ein GIG yn parhau. Gallwn i gyd fod yn falch o gynnydd rhagorol y rhaglen frechu yng Nghymru, ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud eto. Rhaid inni beidio â gadael i'r feirws ailsefydlu ei hun drwy symud i lefel rhybudd is yn rhy fuan.

Yn yr adolygiad diwethaf o'r cyfyngiadau, dywedais oni bai bod gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o goronafeirws cyn yr adolygiad heddiw, y byddai ysgolion a cholegau yn parhau i ddysgu o bell tan hanner tymor mis Chwefror. Oherwydd bod pobl Cymru wedi cadw at y cyfyngiadau presennol, mae arwyddion cadarnhaol ein bod, gyda'n gilydd, yn helpu i leihau trosglwyddiad yn ein cymunedau. Fodd bynnag, yng ngoleuni dangosyddion ehangach y GIG megis defnydd gwelyau unedau gofal dwys, mae angen dull gofalus o hyd ac felly ni fydd lleoliadau addysg yn agor cyn y gwyliau hanner tymor a bydd y trefniadau presennol yn parhau.

Mae agor lleoliadau addysg yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Os byddwn yn parhau i weld niferoedd yn gostwng dros y mis nesaf, ein bwriad fyddai gweld disgyblion ysgolion cynradd yn dychwelyd fesul cam ac mewn modd hyblyg o 22 Chwefror. Mae hyn yn cydnabod bod ein dysgwyr ieuengaf yn ei chael hi'n anoddach dysgu o bell; y dystiolaeth o'r effaith hirdymor, yn enwedig i'n dysgwyr ieuengaf a'r dystiolaeth wyddonol ar drosglwyddiad ymhlith plant iau.

Os oes digon o hyblygrwydd, byddwn yn dod â niferoedd bach o ddysgwyr uwchradd a cholegau yn ôl ar yr un pryd. Rydym yn gweithio gydag ysgolion, darparwyr ôl-16 ac undebau i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni hynny. Ein blaenoriaeth fydd dysgwyr galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaid, sydd angen mynediad at leoliadau hyfforddiant neu weithleoedd er mwyn ymgymryd â chymwysterau ymarferol.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag undebau ac awdurdodau lleol i drafod pa fesurau pellach y gallwn i gyd eu cymryd i sicrhau bod lleoliadau addysg yn amgylcheddau diogel o ran COVID. Caiff y trafodaethau hyn eu llywio gan gyngor iechyd a ch yngor gwyddonol.

Bydd y ddarpariaeth addysg yn parhau ar ôl hanner tymor ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, plant gweithwyr hanfodol, a dysgwyr sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau hanfodol a bydd ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn parhau i fod ar agor lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r cyfyngiadau ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer ffurfio swigod cefnogaeth i helpu pobl sengl a rhieni sengl. Rwy'n cydnabod y gall perthnasoedd ac amgylchiadau pobl newid dros amser a byddwn yn diwygio'r rheoliadau a chanllawiau i ganiatáu ar gyfer newid swigen gefnogaeth ar yr amod nad yw'r ddwy aelwyd yn gweld unrhyw aelwyd arall am gyfnod o 10 diwrnod cyn ffurfio'r swigen gefnogaeth newydd. Dylid gwneud hyn fel dewis olaf gan ei bod yn fwy diogel os na fyddwn yn newid y swigen gefnogaeth yr ydym yn rhan ohoni.

Bydd y cyfyngiadau hefyd yn cael eu diwygio yng Nghymru i ganiatáu i uchafswm o ddau berson o ddwy aelwyd wahanol ymarfer corff gyda'i gilydd, ond dylent wneud pob ymdrech i gadw pellter cymdeithasol. Bydd rhaid i bobl ddechrau a gorffen unrhyw ymarfer corff o'u cartref oni bai bod angen i berson deithio am resymau iechyd. Mae hyn yn golygu, am y tro, os bydd dau berson yn cyfarfod, y bydd angen iddynt fyw yn agos at ei gilydd gan na chaniateir teithio i wneud ymarfer corff yn gyffredinol.

Yn olaf, bydd lleoliadau golchi ceir awtomatig yn cael eu rhestru ochr yn ochr â gorsafoedd petrol a garejys fel lleoliadau y caniateir iddynt agor, i roi eglurder cyfreithiol.

SL(5)721 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") i weithredu'r newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn gwarchod iechyd y cyhoedd.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r thiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnod ar gyfer yr Emiradau Arabaidd Unedig. Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaethau trosiannol yn hyn o beth.¹

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 ar 12 Ionawr 2021.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

¹ Nodir bod y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 wedi tynnu pob gwlad oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt ers hynny.



Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol gan y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae adran 5(5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop ("y Siarter") yn ffurfio rhan o gyfraith ddomestig ar nac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, sef am 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020. Felly nid yw'r Siarter bellach yn rhan o gyfraith ddomestig. Yn sgil hyn, byddai o gymorth i'r Pwyllgor i gael esboniad pam y cyfeirir at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 11 Ionawr 2021.

Yn benodol, nodwn y paragraffau canlynol yn y llythyr:

"Bu'n rhaid dileu Emiradau Arabaidd Unedig (EAU) ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dilyn cyngor sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil teithio i mewn o EAU wedi codi.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



“Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.”

Rydym hefyd yn nodi bod y llythyr a anfonwyd at y Llywydd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, dyddiedig 11 Ionawr 2021 yn nodi:

“Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.”

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r pwynt adrodd cyntaf yn unig.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Ymateb:

Mae'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn anghywir, a bwriadwyd iddo gyfeirio at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gywir yn y memoranda esboniadol i unrhyw reoliadau diwygio pellach.

SL(5)724 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2). Cafodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 eu gwneud ar 15 Mehefin a daethant i rym ar 17 Mehefin. Maent yn gosod rhwymedigaethau ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) i sicrhau bod teithwyr yn teithio ar y gwasanaethau hynny yn cael gwybod am eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol iddarparu gwybodaeth a, lle y bo'n berthnasol, i hunanyysu ar ôl dychwelyd i Gymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cyflwyno mesurau pellach i ddiogelu iechyd y cyhoedd, a hynny ar ffurf cynllun profi cyn ymadael, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin feddu ar hysbysiad o brawf coronafeirws negatif. Maent hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i sicrhau bod teithwyr ar wasanaethau o'r fath yn meddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negatif. Bydd torri'r gofyniad hwn yn drosedd.

Daeth y gofynion newydd mewn perthynas â phroffion cyn gadael i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o 04.00 ddydd Llun 18 Ionawr.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae paragraff 3(1) o Atodlen 1A newydd, fel y'i mewnosodwyd gan reoliad 3(6) o'r Rheoliadau, yn cyfeirio'n anghywir at reoliad 6A(4)(a). Ymddengys mai'r cyfeiriad cywir yw reoliad 6A(4)(c).

Mae paragraff 3(1)(a) o Atodlen 1A newydd, fel y'i mewnosodwyd gan reoliad 3(6) o'r Rheoliadau, yn cyfeirio'n anghywir at reoliad 8 o Atodlen 2. Ymddengys mai'r cyfeiriad cywir yw paragraff 7 o Atodlen 2.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 15 Ionawr 2021.

Yn benodol, nodwn y paragraff canlynol yn y llythyr:

"Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno mesurau pellach i amddiffyn iechyd y cyhoedd, ar ffurf cynllun profi cyn ymadael, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i gael hysbysiad o brawf coronafirws negyddol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i sicrhau bod teithwyr ar wasanaethau yn meddu â hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol, a fydd yn drosedd i'w thorri.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



"Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r darpariaethau ynghylch y gofyniad ar weithredwyr sydd yn y Rheoliadau hyn yn parhau'n gyson â'r ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

Mae adran 5(5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw'r Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd ("y Siarter") yn rhan o gyfraith ddomestig ar, neu ar ôl, diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, sef 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020. Felly nid yw'r Siarter bellach yn rhan o gyfraith ddomestig. Yng ngoleuni hyn, byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor i gael eglurhad sy'n esbonio pam y cyfeirir at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol.

Nodir hefyd bod adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn maentumio bod y Rheoliadau yn gymesur, ac mae'r Rheoliadau eu hunain, yn rheoliadau 9(4) a (6), yn cyflwyno mesurau diogelu o ran rhannu gwybodaeth.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r cyfeiriadau at reoliadau 3(2), 3(3) a 3(4) ym mharagraffau 3, 4 a 5 o'r Nodyn Esboniadol yn anghywir. Dylent, yn hytrach, gyfeirio at reoliadau 3(3), 3(4) a 3(5) yn y drefn honno.

Derbynnir nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, fe'i cynhwysir i helpu dinasyddion i gyrchu a deall y gyfraith newydd a weithredir gan y Rheoliadau ac, o'r herwydd, mae'n ddymunol bod y cyfeiriadau cywir yn cael eu defnyddio.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol a'r ail bwynt adrodd rhinweddau.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 90

Legislation, Justice and Constitution Committee

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

Pwynt Craffu Technegol 1

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu technegol a bydd yn mynd i'r afael â hyn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Ymateb:

Mae'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn anghywir, a bwriadwyd iddo gyfeirio at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gywir yn y memoranda esboniadol i unrhyw reoliadau diwygio pellach.

Eitem 5

Is-ddeddfwriaeth sydd ag Adroddiadau Clir 08 Chwefror 2021

SL(5)734 – Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cefndir a Diben

Mae dwy ran i'r ddogfen hon.

Cod ymarfer i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yw Rhan 1 o'r ddogfen hon. Mae'n nodi'r dull y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddefnyddio, ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid eraill y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer ardal eu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar weithio mewn partneriaeth drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i baratoi ac i gyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yw Rhan 2 o'r ddogfen hon.

Gweithdrefn: Drafft Negyddol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, y bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

(Nid oes gweithdrefn gan y Senedd ar gyfer y rhan o'r ddogfen hon sy'n rhoi canllawiau statudol.)

Rhiant-Ddeddf: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 26 Ionawr 2021

Yn dod i rym ar:





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygiadau Amrywiol sy'n ymwneud â Chyfansoddiad, Gwybodaeth a Labelu Bwyd a Gwin) 2021

DYDDIAD 29 Ionawr 2021

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Gosodwyd OS - SO30C ger bron Senedd y DU si ddiwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygiadau Amrywiol sy'n ymwneud â Chyfansoddiad, Gwybodaeth a Labelu Bwyd a Gwin) 2021

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r deddfwriaeth a ganlyn:

Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

- Rheoliad (EU) 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, gan ddiwygio Rheoliadau (EC) rhif 1924/2006 ac (EC) rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, a diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC)
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 1337/2013 sy'n gosod y rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch dynodi gwlad tarddiad neu fan tarddiad ar gyfer cig moch, defaid, geifr a dofednod ffres, wedi'i oeri ac wedi'i rewi
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU)) 2018/775m sy'n gosod y rheolau ar gyfer cymhwyso Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, o ran y rheolau ar ddynodi gwlad tarddiad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd.

Tudalen y pecyn 93

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33 sy'n ategu Rheoliad (EU) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch ceisiadau ar gyfer amddiffyn dynodiadau tarddiad, dynodiadau daearyddol a thermau traddodiadol yn y sector gwin, y drefn wrthwynebu, y cyfyngiadau defnyddio, newidiadau i fanylebau cynnyrch, canslo amddiffyniad a labeli a chyflwyniad.
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/934 sy'n ategu Rheoliad (EU) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch ardaloedd tyfu gwyn lle gellid cynyddu'r cryfder alcoholig, arferion gwinyddol awdurdodedig a chyfyngiadau ar gynhyrchu a chadw cynnyrch y winwydden, y ganran leiaf o alcohol ar gyfer sgil-gynhyrchion a'u gwaredu, a chyhoeddi ffeiliau OIV.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/935 sy'n gosod y rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch dulliau dadansoddi ar gyfer pennu nodweddion ffisegol, cemegol a gweinyddol cynnyrch y winwydden a hysbysiadau o benderfyniadau Aelod-Wladwriaethau ynghylch cynyddu cryfder alcoholig naturiol.
- Mae rheoliadau 2021 yn diwygio hefyd rai cyfreithiau domestig sy'n hannu o'r UE sy'n ymwneud â Lloegr yn unig.

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Bydd yr offeryn, cyhyd â bod hynny'n bosibl, yn darparu bod cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig yn cael yr un effaith â deddfwriaeth gyfredol, gan sicrhau bod defnyddwyr a busnesau'n gallu darparu a defnyddio ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yr un wybodaeth, wedi'i chyflwyno yn yr un ffordd, ag o'r blaen. Mae'r offeryn hwn yn darparu ar gyfer y newidiadau y bydd angen eu gwneud o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

Diben y diwygiadau

Mae'r offeryn hwn yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, i fynd i'r afael â'r diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Mae'n sicrhau hefyd y bydd darnau domestig o ddeddfwriaeth bwyd yn Lloegr ar Gaseinau a Mêl yn gallu gweithio'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r diwygiadau yn yr offeryn yn gymwys ar ôl diwedd y cyfnod pontio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Nid yw'r polisi'n cael ei newid ond ceir darnau cyfnewid yn sgil y ffaith na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE a fydd yn cael 'effaith byd go iawn' ar yr wybodaeth a'r ffordd y caiff ei chyflwyno i ddefnyddwyr. Mae'r offeryn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo i newidiadau yn y Offerynnau Statudol domestig ac mae hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau gorfodi sy'n ymwneud â defnyddio dynodiadau daearyddol (GI) ar labelu cynhyrchion pan na fydd y DU bellach yn yr UE.

Mae'r OS yn gwneud diwygiadau i reoliadau sy'n sicrhau y gall y gyfundrefn win yn ei chyfanrwydd weithredu'n effeithiol ledled y DU, yn y ffordd yr oedd yn gwneud cyn diwedd y cyfnod pontio. Mae swyddogaethau a oedd yn perthyn i'r UE neu Aelod-wladwriaethau wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol.

Mae'r OS a'i Femorandwm Esboniadol, sy'n gosod effeithiau pob diwygiad, ar gael yma:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/7pvsITeQ/ProposedNegative/>

Pam y cafodd cydsyniad ei roi

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau bod y llyfr statud yn gyson a chydlynol. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; ac nid yw'r diwygiadau'n newid polisi. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**216 - Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygiadau Amrywiol sy'n Ymwneud â
Chyfansoddiad, Gwybodaeth a Labelu Bwyd a Gwin) 2021**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 11 Ionawr 2021

Sifftio

| | |
|--|----------------------|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 26 Ionawr 2021 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 26 Ionawr 2021 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 27 Ionawr 2021 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |

Gweithdrefn graffu

| | |
|---|-------------------------|
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Crynodeb

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, i fynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Yn ôl datganiad Gweinidogion Cymru "Nid yw'r polisi'n cael ei newid ond ceir darnau cyfnewid yn sgil y ffaith na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE a fydd yn cael 'effaith byd go iawn' ar yr wybodaeth a'r ffordd y caiff ei chyflwyno i ddefnyddwyr".

Er enghraifft:

- Bydd angen i fwyd a roddir ar y farchnad ym Mhrydain Fawr fod â chyfeiriad yn y DU ar gyfer y busnes bwyd sy'n gyfrifol am y

wybodaeth fwyd ar y label. Ar hyn o bryd, gall y cyfeiriad hwn fod mewn unrhyw un o 27 Aelod-wladwriaeth yr UE neu'r DU. Mae angen y newid hwn er mwyn sicrhau bod ffordd uniongyrchol a syml i ddefnyddwyr a swyddogion gorfodi (Safonau Masnach) gysylltu â'r rhai sy'n gyfrifol am y wybodaeth ar labeli bwyd.

- Ar gyfer briwgig (ac eithrio cig eidion), bydd dangosyddion tarddiad fel 'UE' a 'Tu allan i'r UE' yn newid i 'DU' a 'Tu allan i'r DU'. Ond nid yw hyn yn golygu na ellir defnyddio labeli i ddangos bod y cynnyrch yn dod o wlad benodol yn lle.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu na fydd methiant i gydymffurfio â gofynion labelu Dynodiad Daearyddol yn destun camau gorfodi yn ystod cyfnod pontio o dair blynedd pe bai'r cynnyrch bwyd dan sylw yn cael ei roi ar y farchnad yn ystod y cyfnod hwnnw ac y byddai wedi cydymffurfio â'r rheolau Dynodiad Daearyddol yn syth cyn 31 Rhagfyr 2020. (Fodd bynnag, ar gyfer cynhyrchion gwin, nid yw'r cyfnod pontio tair blynedd yn gymwys, a gallant barhau i gael eu marchnata nes bod y stoc wedi dod i ben. Mae'r dull hwn yn cydnabod y cyfnod silff hirach sy'n nodweddiadol o gynhyrchion gwin.)

Mae'r cyfnod pontio tair blynedd hwn yn cyd-fynd â'r cyfnod o dair blynedd nes bod defnyddio logo Dynodiad Daearyddol newydd y DU yn dod yn orfodol.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 29 Ionawr 2021 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mick Antoniw MS Chair of the
Legislation, Justice and Constitution
Committee

By email

Mick.Antoniw@senedd.wales

Wednesday 03 February 2021

Dear Chair,

Subject: Scrutiny of Welsh Government regulations and compliance with the Public Sector Equality Duty: Standing order 21.3C (iv)

We write further to our letter to you of 3rd July 2020 and your positive response of 9th July 2021. We have been pleased to see that the Committee has since been considering whether Welsh Government has or has not complied with the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011 when publishing subordinate legislation. In particular regulation 8 which requires that equality impact assessments are published with regulations.

However, we note that in the committee's report [SL\(5\)726](#) The Health Protection

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes,
Caerdydd, CF14 4YJ

Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road,
Cardiff, CF14 4YJ

equalityhumanrights.com

Tudalen y pecyn 98



(Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 states with reference to Standing Order 21.3(ii) that “a Children’s Rights Impact Assessment and Equality Impact Assessments have been completed.” Although there are earlier equality impact assessments and a Children’s Rights Assessment dated 21st December 2020 published at <https://gov.wales/impact-assessments-coronavirus>, there are none in relation to these amendment regulations, or the regulations that they amend. We would ask that the Committee reconsiders and requests further clarification.

I am happy to discuss this matter further or to meet with you if you would find it helpful. My email address ruth.coombs@equalityhumanrights.com.

Yours sincerely,

Rev Ruth Coombs

Head of Wales

EHRC Wales | EHRC Cymru

Cc SeneddLJC@senedd.wales legislation@senedd.wales

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes,
Caerdydd, CF14 4YJ

Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road,
Cardiff, CF14 4YJ

equalityhumanrights.com



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Trwy e-bost at SeneddDCC@Senedd.Cymru

3 Chwefror 2021

Annwyl Mick,

Roeddwn yn falch o roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ddydd Llun, 1 Chwefror. Rwy'n hynod ddiolchgar i Aelodau'r Pwyllgor a swyddogion Comisiwn y Senedd a gynhyrchodd, mewn ychydig dros 24 awr, adroddiad mor drylwyr a chynhwysfawr ar Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) gan fy ngalluogi i ymateb i'r argymhellion sydd gerbron y Senedd yn nadl Cyfnod 1.

Fel y dywedais yn y ddadl, rwy'n hapus i dderbyn y rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor. Nodir ymateb y Llywodraeth i bob argymhelliad yn y ddogfen ategol a byddwn yn gosod y llythyr hwn a'r ymateb yn y Senedd.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 100
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Llywodraeth Cymru i

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

| | Recommendation: | Ymateb y Llywodraeth Cymru |
|----------|--|---|
| 1 | <i>The Minister should publish the Welsh Government's assessment of the impact of the Bill's provisions on human rights as soon as possible and no later than 5 February 2021.</i> | Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei hasesiadau o gydweddoldeb â'r deddfwriaeth hawliau dynol. Ond rydym yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd ac nad yw'n mynd yn groes i'r Ddeddf Hawliau Dynol. |
| 2 | <i>The Bill should be amended to expressly time limit the contingency measures set out in the Bill, in particular, to provide that the provisions which relate to the 2021 Election cease to apply on the day following the first meeting of the new Senedd.</i> | Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn. I'r graddau y mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i nodi cyfyngiadau amser, maent eisoes wedi'u cynnwys yn y testun. |
| 3 | <i>The Bill should be amended to remove "or appropriate" from section 5(1).</i> | Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Yn amgylchiadau cyfredol y pandemig, rydym eisiau cadw'r hyblygrwydd y mae "priodol" yn ei roi inni, ac rydym yn tynnu sylw'r Aelodau at y ffaith bod yr un geiriad yn ymddangos yn Neddf cyfatebol Senedd yr Alban. |
| 4 | <i>The Bill should be amended so that the First Minister must consult the Electoral Commission, the Chief Medical Officer, and such other persons considered to be appropriate, before exercising the power in section 5(1) of the Bill.</i> | Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Byddwn yn cyflwyno diwygiad i'w gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru. Yn y Bil, mae dyletswydd eisoes ar y Comisiwn Etholiadol i roi cyngor. Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau parhaus gyda phartneriaid am |

| | | |
|---|--|---|
| | | yr etholiad, ond nid ydym eisiau creu unrhyw amwysedd ynglŷn â phwy y mae'n rhaid ymgynghori â nhw ac felly ni fyddwn yn cynnwys dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â phersonau eraill. |
| 5 | <i>The Minister should clarify during the Stage 1 debate the implications of the drafting of sections 5(2), 5(3), 5(4) and 5(6) of the Bill by confirming our understanding as set out in paragraph 65 and addressing each of the questions in paragraph 66.</i> | <p>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.</p> <p>Mae dealltwriaeth y Pwyllgor fel y nodwyd ym mharagraff 65 yr adroddiad yn gymharol gywir. Mae gan y Llywydd y disgresiwn i gynnig dyddiad. Fodd bynnag, y Llywydd sy'n gosod y dyddiad, ond dim ond os bydd uwchfwafrif yn cytuno ar y dyddiad hwnnw.</p> <p>Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor:</p> <p>Nid yw'r Bill yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag a ellir diwygio cynnig neu beidio. Gellid gwneud darpariaeth o'r fath mewn Rheolau Sefydlog, ac rydym wedi dechrau trafodaeth gyda'r Pwyllgor Busnes am y gweithdrefnau a all fod yn briodol. Yn absenoldeb darpariaeth benodol mewn Rheolau Sefydlog, byddai cyflwyno a dewis y diwygiadau yn fater i'r Llywydd.</p> <p>Os nad yw'r Senedd yn pleidleisio o blaid dyddiad a gynigiwyd gan y Llywydd, caiff y Llywydd gynnig dyddiad arall, mewn egwyddor. Eto, gellid gwneud darpariaeth ynglŷn â hyn mewn Rheolau Sefydlog. Ni fyddai cynnig dyddiad newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog gyflwyno cynnig newydd. Mae pwerau'r Prif Weinidog yn ymwneud â chynnig gohirio'r etholiad, ac nid y dyddiad.</p> <p>Ni chaiff y Llywydd osod dyddiad ar gyfer etholiad a ohiriwyd o dan adran 5 ac eithrio un a gymeradwywyd gan uwchfwafrif yn y Senedd.</p> |

| | | |
|----|---|--|
| 6 | <i>Section 6 of the Bill should be amended to include a requirement that the Llywydd make a statement confirming the day fixed for the holding of the poll and explaining why it was necessary to vary the date previously fixed under section 5.</i> | <p>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.</p> <p>Er nad oes gofyniad cyfwerth yn y pŵer o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, byddwn yn cyflwyno diwygiad i weithredu hyn, ac felly yn gwella tryloywder yn yr amgylchiadau digynsail hyn.</p> |
| 7 | <i>The Minister should explain to Members during the course of the Stage 1 debate what measures are to be put in place to specifically provide for the form, manner of preparation and publication of the royal proclamation under section 6 of the Bill, to ensure that the Llywydd is able to fully exercise the power under section 6.</i> | <p>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.</p> <p>Paratowyd Gorchymyn adran 116 – Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamsiwn) 2021 – sydd i'w wneud gan Ei Mawrhydi yn ei Chyngor ar 10 Chwefror. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys math o eiriad ar gyfer proclamsiwn o dan Adran 4(2) a 5(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig y gellir defnyddio'r math o eiriad fel cynsail / templed ar gyfer proclamsiwn o dan adran 6 y Bil. Byddem yn trefnu i'r proclamsiwn gael ei gyhoeddi yn y Gazettes. Ac wrth gwrs byddem yn gweithio gyda'r Llywydd i dynnu sylw pawb sydd ynghlwm â'r etholiad i'r newid yn y dyddiad yn syth. Rydym yn gweithio gyda Phalas Buckingham ynglŷn â hyn.</p> |
| 8 | <i>The Bill should be amended so that where the regulation making power in section 8 is used to amend primary legislation, the made affirmative procedure should apply.</i> | <p>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno diwygiad i'r perwyl hwn.</p> |
| 9 | <i>The Bill should be amended so that regulations made under section 12 that amend primary legislation are subject to the made affirmative procedure.</i> | <p>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno diwygiad i'r perwyl hwn.</p> |
| 10 | <i>The Minister should confirm to Members during the course of the Stage 1 debate what type of amendments the Welsh Government may</i> | <p>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.</p> |

| | | |
|----|--|---|
| | <i>introduce at Stage 2 in respect of contingency arrangements for postal voting.</i> | Mae'r math o ddiwygiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn ymwneud ag addasiadau i sut y bydd ceisiadau am bleidlais bost yn cael eu prosesu i leihau'r nifer o geisiadau o'r fath sy'n cael eu gwrthod. |
| 11 | <i>The Minister should confirm to Members during the course of the Stage 1 debate how and when the Welsh Government may introduce contingency arrangements for early voting.</i> | Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn bwriadu cyflwyno diwygiad yng Ngham 2 a fyddai'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer diwrnodau pleidleisio ychwanegol yn yr wythnos cyn diwrnod pleidleisio etholiad y Senedd, os bydd y bleidlais yn cael ei gohirio a chyn belled nad yw'r bleidlais wedi'i chyfuno ag etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau. |

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
3 Chwefror 2021

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/4157/20

Mick Antoniw AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick & John,

Ysgrifennais atoch ar 15 Hydref ynglŷn â Mesur Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU ("y Bil") a'ch hysbysu bod yna oedi yn y broses o fynd â'r Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac erbyn hyn ni ddisgwylir i Ail Ddarlleniad Tŷ'r Arglwyddi ddechrau tan fis Ionawr.

Dywedais hefyd fod fy swyddogion wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynglŷn â c73(1)(b) sydd, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn tresmasu'n sylweddol ar faterion datganoledig, gan ei fod yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar draws yr ystod gyfan o faterion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n ymwneud â cham-drin domestig, ac yn arbennig ei effaith ar blant.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau y daethpwyd i gydgytundeb gan Lywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau i c73 o'r Bil er mwyn sicrhau bod pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau wedi'i gyfyngu i faterion sydd wedi'u cadw yn ôl ac nad ydynt yn tresmasu ar faterion datganoledig Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU drwy weithredu c73(6) (*'Duty on the SoS to consult with*

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

the Welsh Ministers), er mwyn sicrhau bod y canllawiau a gyhoeddir yn rhoi ystyriaeth lawn i'r sefyllfa ddatganoledig.

Fy safbwynt i o hyd yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 65, 66 a 68 a Rhan 1 o Atodlen 2 am eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Maent yn cynnwys addasiadau i droseddau y gallai'r Senedd eu gwneud yn rhannol. Mae deddfwriaeth i roi sylw i rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu, fel rhwymedigaethau confensiwn Istanbul, hefyd yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd lle mae deddfwriaeth angenrheidiol yn perthyn i gylch gwaith meysydd datganoledig.

Rwy'n gobeithio bod fy llythyr yn ddefnyddiol ac yn egluro'r materion hyn.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke above the first name.

Jane Hutt AS/MS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/3432/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Mick.Antoniw@senedd.cymru

John Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
John.Griffiths@senedd.cymru

15 Hydref 2020

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr ar y cyd, dyddiedig 13 Hydref, mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 30 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 3 Awst mewn perthynas â Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU ("y Bil").

Mae cynnydd y Mesur drwy Dŷ'r Arglwyddi yn cael ei ohirio, ac ni ddisgwylir i Ail Ddarlleniad yr Arglwyddi ddechrau tan fis Rhagfyr, gyda chamau dilynol y broses graffu Seneddol i ddilyn yn y Flwyddyn Newydd. O ganlyniad, mae'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn a oedd i gael ei chynnal ar 10 Tachwedd wedi'i gohirio.

Yn y cyfamser, mae fy swyddogion wrthi'n parhau i drafod gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynglŷn â'n hymgais am welliannau i ddarpariaethau penodol yn y Bil. Byddaf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw gytundeb ar y materion hyn, gan fynd i'r afael â'r pwyntiau yn eich llythyr diweddaraf wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first letter.

Jane Hutt AS/MS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Jane Hutt AS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

13 Hydref 2020

Annwyl Jane

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cam-drin Domestig



Yn ein llythyr atoch ar 30 Medi 2020, gwnaethom nodi:

"Rydym wedi nodi nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei hun yn darparu dadansoddiad o sut mae'r darpariaethau a restrir yn y Memorandwm o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn nodi yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil nad yw'r materion y mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â hwy "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru" ac felly nad oes angen cydsyniad, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu'r dadansoddiad a wnaethoch er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd.



Rydym hefyd yn nodi bod gan gymal 3, lle gofynnir am gydsyniad, gysylltiad â'r diffiniad o "gam-drin domestig" yng nghymal 1, sydd yn ei dro yn gysylltiedig â'r diffiniad o "wedi'i gysylltu'n bersonol" yng nghymal 2. Pam rydych chi'n ystyried nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 1 a 2 pan gredwch fod angen cydsyniad ar gymal 3?"



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

Roedd eich ymateb ar 6 Hydref yn dweud:

"Rwy'n parhau i gredu bod achos cryf dros ddadlau bod y darpariaethau a nodwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Diben cyffredinol y Bil yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddiodefwyr, atal cam-drin domestig, gan gynnwys cryfhau'r cymorth i ddiodefwyr camdriniaeth a'u teuluoedd; ac mae hyn yn cael effaith glir ar faterion datganoledig."

Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod yr ymateb hwn yn rhoi'r lefel briodol o wybodaeth i'n Pwyllgorau.

Byddem felly yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r dadansoddiad y gofynnwyd amdano yn ein llythyr ar 30 Medi, sy'n arferol i'w gynnwys ym Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn y bôn, dylai hon fod yn wybodaeth fanwl am sut mae cymalau penodol yn y Bil (yr ydych chi'n eu nodi) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac yn unol â hynny, y rhesymau pam y gofynnir am gydsyniad.

Yn wyneb ein dyddiad cau ar gyfer adrodd, **byddem yn ddiolchgar o dderbyn y dadansoddiad hwn erbyn 2pm ddydd Iau 15 Hydref 2020 fan bellaf.**

Yn gywir



Mick Antoniw

Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad



John Griffiths

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/3258/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Crughywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Crughywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06 Hydref 2020

Cadeirydd annwyl,

Diolch am eich llythyr ar y cyd, dyddiedig 30 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) a gafodd ei osod mewn cysylltiad â Bil Cam-drin Domestig y Deyrnas Unedig (y Bil). Rydych wedi gofyn tri chwestiwn i mi mewn perthynas â'r LCM.

Rydych wedi gofyn am esboniad pam y bu oedi yn gosod yr LCM hwn gerbron y Senedd, gan y cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin ar 3 Mawrth, ond na osodwyd LCM gerbron y Senedd tan 3 Awst. Cyflwynwyd y Bil am ei ddarlleniad cyntaf yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth, ac roedd fy swyddogion mewn trafodaethau parhaus â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig; yn benodol am bwerau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig arfaethedig a gallu'r Senedd i graffu ar ei waith. Yna bu'n rhaid i unrhyw waith pellach o edrych ar y Bil yn ei gyfanrwydd ddod i ben wrth i swyddogion yn y Gwasanaethau Cyfreithiol a swyddogion polisi ymateb i'r sefyllfa unigryw yn sgil COVID-19, a gwaith cysylltiedig. Dim ond yn ddiweddar y mae'r gwaith o graffu ar y Bil wedi aildddechrau, ac mae fy swyddogion wedi aildddechrau trafod â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac maent yn ystyried y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'n anffodus na osodwyd yr LCM ar y cychwyn cyntaf oherwydd y gwaith enfawr a grëwyd gan COVID-19, fodd bynnag, rwy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

credu bellach bod hwn yn amser da i graffu ar y Bil, o gofio bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'n hysbysu yn ddiweddar am eu gwelliannau, a bod y Bil yn symud ymlaen gerbron Tŷ'r Arglwyddi erbyn hyn.

Rydych hefyd wedi gofyn am fanylion y dadansoddiad a wnaed er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a pham nad yw cymalau 1 a 2 wedi'u cynnwys yn yr LCM. Rydych nodi bod Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Bil yn datgan nad yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac felly nad oes angen cydsyniad. Rwy'n parhau i gredu bod achos cryf dros ddadlau bod y darpariaethau a nodwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Diben cyffredinol y Bil yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddiodefwyr, atal cam-drin domestig, gan gynnwys cryfhau'r cymorth i ddiodefwyr camdriniaeth a'u teuluoedd, ac mae hyn yn cael effaith glir ar faterion datganoledig. Rhaid ystyried proses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yng nghyd-destun confensiwn Sewell fel y nodir yn adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Canllawiau ar Ddatganoli, sef, 'Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales'. Mae'r canllawiau hynny'n darparu na fydd y Senedd y Deyrnas Unedig yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Mae cam-drin domestig yn gyffredinol yn faes datganoledig, ac mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn brawf o hynny.

Gobeithio bod fy llythyr yn egluro'r materion hyn. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich adroddiad y mis nesaf ac, fel y gwyddoch, rwy'n dal yn benderfynol o ddileu pob elfen ar gam-drin domestig ac rwy'n edrych ymlaen at drafod y Bil hwn gydag Aelodau'r Senedd yn ystod y ddadl ar 10 Tachwedd.

Yn gywir,



Jane Hutt AS/MS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Jane Hutt AS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

30 Medi 2020

Annwyl Jane



Cyfeiriwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diweddar y Bil Cam-drin Domestig (LCM) at ein pwyllgorau i'w ystyried. Rhoddwyd ystyriaeth gychwynol i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein priod gyfarfodydd ddydd Llun 28 Medi ac rydym wedi cytuno i ysgrifennu atoch ar y cyd i ofyn am eglurder ar nifer o faterion.

Er i'r Bil gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 3 Mawrth 2020, ni chafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei osod gerbron y Senedd tan 3 Awst 2020. Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn dweud y dylid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol "dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno". Er ein bod yn nodi bod cymalau 3 a 65 (sy'n gymalau perthnasol at ddibenion y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol) wedi'u cynnwys yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, nid yw'n eglur pam y bu oedi cyn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 66, 68 a 73. Byddem yn gwerthfawrogi eich esboniad ynghylch pam y bu oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn?



Rydym wedi nodi nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei hun yn darparu dadansoddiad o sut mae'r darpariaethau a restrir yn y Memorandwm o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn nodi yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil nad yw'r materion y mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

â hwy "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru" ac felly nad oes angen cydsyniad, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu'r dadansoddiad a wnaethoch er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd.

Rydym hefyd yn nodi bod gan gymal 3, lle gofynnir am gydsyniad, gysylltiad â'r diffiniad o "gam-drin domestig" yng nghymal 1, sydd yn ei dro yn gysylltiedig â'r diffiniad o "wedi'i gysylltu'n bersonol" yng nghymal 2. Pam rydych chi'n ystyried nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 1 a 2 pan gredwch fod angen cydsyniad ar gymal 3?

Gan fod angen inni adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn 5 Tachwedd, byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Llun 12 Hydref.


Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Mick Antoniw

Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad



John Griffiths

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol
a Chymunedau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon